

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Crynodeb o Fil

**Crynodeb o Fil: Bil Rheoli Ceffylau
(Cymru)**

Hydref 2013

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Y Gwasanaeth
Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiuedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gfael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
www.cynulliadcymru.org/research

Mae copïau printiedig hefyd ar gael:

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Research.Service@wales.gov.uk
Twitter: [@YmchwilCCC](https://twitter.com/YmchwilCCC)
Blog: pigion.wordpress.com

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 13/2417
Rhif dogfen:13/074

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Crynodeb o Fil

**Crynodeb o Fil: Bil Rheoli Ceffylau
(Cymru)**

Hydref 2013

Chloe Corbyn, Siân Eleri Richards a
Gareth Thomas

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Y Gwasanaeth
Ymchwil

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	1
2.	Cefndir	2
2.1.	Pori anghyfreithlon.....	2
2.2.	Y darpariaethau presennol.....	4
2.3.	Datganiadau ysgrifenedig Llywodraeth Cymru	5
2.4.	Ymgynghoriad: ‘Gadael ceffylau a merlod a phori anghyfreithlon’	6
2.5.	Rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru	7
3.	Amserlen	9
3.1.	Dyddiadau allweddol	9
3.2.	Cyflymu’r broses ddeddfu	9
4.	Y Bil	11
4.1.	Nodau ac amcanion polisi.....	11
4.2.	Cymhwysedd.....	11
4.3.	Darpariaethau	11
4.4.	Gweithredu ac adolygu	13
5.	Goblygiadau ariannol	14
6.	Ymatebion	16

Bil Rheoli Ceffylau (Cymru)

Dyddiad cyflwyno: 14 Hydref 2013

Yr Aelod sy'n gyfrifol: Alun Davies AC, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd

Dadl ar y Bil yng Nghyfnod 1: 22 Hydref 2013. Ni chreffir ar y Bil gan bwyllgor yng Nghyfnod 1.

Y pwyllgor sy'n craffu ar y Bil yng Nghyfnod 2: Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

1. Cyflwyniad

Cyflwynwyd Bil Rheoli Ceffylau (Cymru)¹ ('y Bil') gan Alun Davies AC, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, ar 14 Hydref 2013. Mae'r Bil yn ceisio mynd i'r afael â phori anghyfreithlon a'r arfer o adael ceffylau yn ddiymgeledd, ac mae'r memorandwm esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef yn datgan mai prif amcan polisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Bil yw 'gweithio tuag at sefydlu Cymru sy'n rhydd o bori anghyfreithlon'².

Mae'r Bil yn cynnig ateb ar gyfer Cymru gyfan i alluogi pob awdurdod lleol i sicrhau dull cyson o gael gwared ar yr effeithiau y mae pori anghyfreithlon a gadael ceffylau a merlod yn ddiymgeledd yn eu cael ar dirfeddianwyr, y diwydiant amaethyddol a chymunedau ledled Cymru. Mae'n sefydlu pwerau i alluogi awdurdodau lleol i ymafael (*seize*) mewn ceffylau, eu cadw (*impound*), eu gwerthu a'u gwaredu os byddant mewn mannau cyhoeddus, neu ar unrhyw dir arall sy'n eiddo i'r awdurdod lleol, a hynny heb awdurdod cyfreithlon.

Dyma'r trydydd Bil Cynulliad yn olynol i osgoi craffu yn ystod Cyfnod 1³.

¹ [Bil Rheoli Ceffylau \(Cymru\)](#) [fel ar 14 Hydref 2013]

² Llywodraeth Cymru, [Memorandwm esboniadol: Bil Rheoli Ceffylau \(Cymru\)](#), Hydref 2013, paragraff 33. [fel ar 14 Hydref 2013]

³Y [Bil Sector Amaethyddol \(Cymru\)](#) a [Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd \(Cymru\)](#) yw'r ddau Fil blaenorol.

2. Cefndir

2.1. *Pori anghyfreithlon*

Mae'r memorandwm esboniadol yn diffinio pori anghyfreithlon a gadael yn ddiymgeledd fel a ganlyn:

arferion anghyfrifol rhai perchnogion ceffylau (neu bersonau sydd â chyfrifoldeb am geffylau), o adael ceffylau, yn fwriadol neu drwy esgeulustod, i bori ar dir heb ganiatâd perchennog y tir, neu pan fo caniatâd wedi ei dynnu'n ôl, a pherchennog y ceffylau wedyn yn gwrthod symud ei anifeiliaid; neu pan fo ceffyl wedi ei adael i gymryd ei siawns heb ofal nac ymgeledd gan y perchennog neu'r person sydd â chyfrifoldeb amdano.⁴

Dechreuodd y cyfryngau dynnu sylw at bori anghyfreithlon mor ddiweddar â mis Mawrth 2012, pan gafwyd adroddiad am bori anghyfreithlon ym mhapur newydd *The Telegraph* a oedd yn disgrifio'r arfer fel trosedd newydd yng nghefn gwlad:

The Country Land and Business Association (CLA) has received more than 200 calls in the last year from exasperated land owners who have found neglected horses abandoned on their land.

The animals are often in a poor condition and can be wild and dangerous to handle.

Unscrupulous owners are also putting horses out to graze on private land as prices of hay and grassland increases, then refusing to remove the animals.

It is believed the increase in abandoned horses has been driven by the recession that means many horse owners are struggling to keep their pets.

Old horses that cannot be sold are expensive to maintain and it is also costly to call out a vet for humane euthanasia.⁵

Cyfeiriodd y cylchgrawn Horse and Hound ati fel 'problem gynyddol' ym mis Mai 2012 hefyd⁶. Canfu arolwg a gynhaliwyd gan Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yn 2012 fod tua 6% o'i haelodau (sef dros 1,000 o ffermwyr) wedi cael profiad uniongyrchol o'r broblem⁷, ac yn sgîl hynny, cyhoeddodd yr undeb gynllun gweithredu⁸ ar sut i fynd i'r afael â hi. Canfu'r un arolwg fod y broblem wedi gwaethygu dros y tair blynedd ddiwethaf, er gwaethaf cyflwyno pasbortau a microsglodion gorfodol i geffylau – mesurau a gyflwynwyd gyda'r bwriad o'i gwneud yn haws olrhain ceffylau, yn enwedig y rhai a oedd yn debygol o gyrraedd y gadwyn fwyd yn y pen draw.

⁴ Llywodraeth Cymru, *Memorandwm esboniadol: Bil Rheoli Ceffylau (Cymru)*, Hydref 2013, paragraff 2 [fel ar 14 Hydref 2013]

⁵ The Telegraph, *New countryside crime of 'horse tipping' and 'fly grazing'*, Mawrth 2012 [fel ar 14 Hydref 2013]

⁶ Horse and Hound, *Equestrian law firms say fly-grazing is a growing issue*, 17 Mai 2012 [fel ar 14 Hydref 2013]

⁷ NFU online, *NFU issues action plan on fly-grazing*, 1 Awst 2013 [fel ar 14 Hydref 2013]

⁸ NFU, *Fly-grazing: The Challenge of Unauthorised Horse Grazing - NFU Action Plan*, Awst 2013 [fel ar 14 Hydref 2013]

Mewn adroddiad a luniwyd ar y cyd gan chwe elusen lles gwahanol, o'r enw [Left on the verge – in the grip of a horse crisis in England and Wales](#)⁹, ac a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2013, nododd yr RSPCA, Redwings, Blue Cross, World Horse Welfare, Horse World a Chymdeithas Ceffylau Prydain y canlynol:

So where do these horses go? Some go into the meat trade and **as the horsemeat scandal of 2013 underlined, some horses on fraudulent passports were going to abattoirs.** There were five to seven abattoirs operating in the UK, paying around £230 for a horse or around £80 for a pony to dealers for meat, which was, and still is, exported to The Netherlands, Belgium, France and Italy. The number of horses sent to slaughter in the UK for human consumption has almost doubled since 2008. **The lack of control on this business could have played a role in driving up the incentive for dealers to breed and trade in horses. The recent closure of two of the abattoirs may also be resulting in an increase in horses being fly grazed and abandoned.** [*Pwyslais y Gwasanaeth Ymchwil.*]

Yn ôl y memorandwm esboniadol, ers mis Tachwedd 2011, cofnodwyd dros 1,500 o achosion o geffylau a oedd yn rhydd, wedi'u gadael, neu'n pori'n anghyfreithlon yn ne Cymru gan Heddlu De Cymru¹⁰. Dyma'r prif broblemau:

- risg i ddiogelwch y cyhoedd pan fo ceffylau crwydr yn rhydd ar briffyrdd gan arwain at gau ffyrdd, gwyro traffig a damweiniau posibl;
- niwsans i gymunedau (ar dir cyhoeddus a phreifat gan gynnwys parciau, meysydd chwarae a mannau cyhoeddus eraill);
- yr effaith ar y diwydiant amaethyddol pan ddifrodir tir a ffensys a phan nad oes digon o dir pori ar ôl ar gyfer stoc y tirlfeddianwr;
- yr effaith amgylcheddol os caiff tir ei bori'n ormodol ac os bydd anifeiliaid yn pystylad (sathru) ar y tir;
- pryderon o ran lles ar ôl dod o hyd i geffylau nad oedd neb yn gofalu amdanynt, ceffylau newynog a rhai meirw; a'r
- baich ariannol sylweddol ar y rhai y mae'n rhaid iddynt ymdrin â'r broblem. Amcangyfrifir ar hyn o bryd fod y costau i'r awdurdodau gorfodi (yr heddlu, awdurdodau lleol, yr RSPCA a'r gwasanaeth tân) wedi cyrraedd tua £1.2 miliwn ers mis Tachwedd 2011.

⁹ RSPCA, Redwings, Blue Cross, World Horse Welfare, Horse World a Chymdeithas Ceffylau Prydain, [Left on the verge – in the grip of a horse crisis in England and Wales](#), Mehefin 2013, tudalen 4. [fel ar 14 Hydref 2013]

¹⁰ Llywodraeth Cymru, [Memorandwm esboniadol: Bil Rheoli Ceffylau \(Cymru\)](#), Hydref 2013, paragraff 77 [fel ar 14 Hydref 2013]

Mae'r memorandwm esboniadol yn nodi ei bod yn anodd amcangyfrif gwir nifer yr achosion o niwsans yng Nghymru sy'n gysylltiedig â cheffylau, gan fod amrywiaeth o sefydliadau gwahanol yn cael gwybod am achosion o'r fath, gan gynnwys yr heddlu, awdurdodau lleol ac elusennau. Fodd bynnag, mae asiantaethau sy'n ymdrin â'r broblem wedi nodi cynnydd yn nifer yr achosion, yn enwedig dros fisoedd y gaeaf¹¹.

O ran cwmpas daearyddol, mae pori anghyfreithlon yn arbennig o gyffredin yn ne Cymru, ar hyd coridor yr M4, yn enwedig yn ardaloedd awdurdodau lleol Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg¹². Fodd bynnag, mae tystiolaeth bod y broblem ar gynnydd mewn ardaloedd awdurdodau lleol eraill, a chafwyd adroddiadau gan heddluoedd Dyfed-Powys a Gwent, yn ogystal ag awdurdodau lleol yng Nghanolbarth Cymru.

2.2. *Y darpariaethau presennol*

Awdurdodau lleol sydd yn bennaf gyfrifol am orfodi'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n berthnasol i reoli ceffylau (ond mae gan yr heddlu bwerau mewn perthynas â rhwystrau ar y briffordd). Mae tair Deddf leol yn cynnwys pwerau cyfreithiol sy'n galluogi rhai awdurdodau lleol i ymafael mewn anifeiliaid crwydr, eu cadw, eu gwaredu a'u difa mewn modd trugarog os byddant ar dir yn eu hardaloedd hwy. Mae'r darpariaethau hyn wedi'u cynnwys yn *Neddf Cyngor Sir Morgannwg Ganol 1987*, *Deddf Cyngor Dinas Caerdydd 1984* a *Deddf Gorllewin Morgannwg 1987*. Yn unol â'r tair Deddf bresennol, mae'n rhaid rhoi saith diwrnod o rybudd i'r perchennog cyn gwaredu'r anifail, ac eithrio ei ddifa, ac 14 o ddiwrnodau o rybudd cyn y gellir difa'r anifail.

Mae'r memorandwm esboniadol yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau eraill na allant fanteisio ar y Deddfau hyn ymdrin â'r broblem drwy ddefnyddio'r ddeddfwriaeth bresennol (e.e. *Deddf Lles Anifeiliaid 2006* a *Deddf Anifeiliaid 1971*) nad yw'n darparu ateb effeithiol i'r broblem nac yn ymdrîn â'r broblem yn gyfan gwbl.

Nodir dau brif wendid o ran y ddeddfwriaeth bresennol. Mae'n rhaid gwybod pwy yw perchennog y ceffyl cyn cymryd unrhyw gamau, a dim ond yr awdurdodau lleol hynny a gwmpesir gan y Deddfau lleol sydd â phwerau i waredu'r anifeiliaid mewn modd dyngarol. At hynny, mae'n anodd i awdurdodau lleol gymryd camau gorfodi gan nad oes modd adnabod y rhan fwyaf o'r ceffylau a geir yn pori'n anghyfreithlon, ac felly mae'n anodd dod o hyd i'r perchennog. Byddai'r Bil yn diddymu'r pwerau sy'n bodoli eisoes yn y tair Deddf leol.

¹¹ Llywodraeth Cymru, [Memorandwm esboniadol: Bil Rheoli Ceffylau \(Cymru\)](#), Hydref 2013, paragraff 8 [fel ar 14 Hydref 2013]

¹² Ibid, paragraff 9.

2.3. *Datganiadau ysgrifenedig Llywodraeth Cymru*

Mewn datganiad ysgrifenedig ar **7 Tachwedd 2012**¹³, cyhoeddodd Alun Davies AC, sef y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd ar y pryd¹⁴, y byddai Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r broblem o geffylau a merlod a oedd wedi'u gadael yn ddiymgeledd, neu bori anghyfreithlon.

Mewn datganiad ysgrifenedig arall, fis yn ddiweddarach ar **7 Rhagfyr 2012**, rhoddodd y Dirprwy Weinidog, fel ydoedd ar y pryd, y wybodaeth ddiweddaraf am hynt y gwaith, gan gyhoeddi ymgynghoriad ar yr angen posibl am ddeddfwriaeth newydd:

Byddaf yn ymgynghori ynghylch y ddeddfwriaeth sydd ar gael nawr ac y gallai fod ei hangen yn y dyfodol i ddelio â phroblem pori anghyfreithlon. Os yw'r dystiolaeth yn cyfeirio at yr angen am newidiadau deddfwriaethol byddaf yn anelu i gyflwyno deddfwriaeth newydd cyn gynted ag y bo modd.

Ychwanegodd y canlynol ynghylch penderfyniad Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig¹⁵ i roi'r gorau i ariannu'r gronfa ddata genedlaethol o fis Medi 2012 ymlaen:

Rwy'n rhannu siom aelodau'r Grŵp Trawsbleidiol am benderfyniad Defra i beidio ariannu'r Cronfa Ddata Ceffylau Genedlaethol bellach, penderfyniad a fydd yn sicr yn amharu ar allu'r awdurdodau gorfodi i gadarnhau a dod o hyd i berchnogion ceffylau yn y dyfodol. **Rwyf wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd Gwladol Defra er mwyn mynegi fy marn ynghylch y penderfyniad hwn a'r modd mympwyol y cafodd ei wneud.**

Mae Cymru'n arwain o fewn y DU wrth geisio dod o hyd i atebion i'r broblem o bori anghyfreithlon, ac mae fy swyddogion yn rhannu'r gwaith sy'n cael ei wneud ar y mater hwn gyda'u cydweithwyr yn Defra. Mae llawer o waith i'w wneud o hyd, ac ar ddechrau'r gaeaf mae pryder y bydd nifer yr enghreifftiau o bori anghyfreithlon yn cynyddu. Rhaid i bob asiantaeth berthnasol fod yn barod i ymateb yn gadarnhaol ac yn gadarn i amddiffyn lles ceffylau a merlod, i ddiogelu eiddo tirfeddianwyr a diogelwch y cyhoedd yn gyffredinol. [Pwyslais y Gwasanaeth Ymchwil]

¹³ Llywodraeth Cymru, [*Datganiad ysgrifenedig gan y Cabinet: Datganiad ar bori ceffylau a merlod yn anghyfreithlon*](#), 7 Tachwedd 2012 [fel ar 14 Hydref 2013]

Llywodraeth Cymru, [*Datganiad ysgrifenedig gan y Cabinet: Datganiad ar bori ceffylau a merlod yn anghyfreithlon*](#), 7 Rhagfyr 2012 [fel ar 14 Hydref 2013]

¹⁴Yn dilyn ad-drefnu'r Cabinet ar 14 Mawrth 2013, yn ystod y cyfnod ymgynghori ar gyfer y Bil, gwnaed Alun Davies AC yn Weinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd. Llywodraeth Cymru, [*Datganiad i'r wasg: Tim newydd- yn cyflawni dros Gymru ar adeg anodd*](#), 14 Mawrth 2013 [fel ar 14 Hydref 2013]

¹⁵ MRCVS online, [*Defra confirm funding withdrawal for NED*](#), Awst 2012 [fel ar 14 Hydref 2013]

2.4. *Ymgynghoriad: ‘Gadael ceffylau a merlod a phori anghyfreithlon’*

Ar 4 Mawrth 2013, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad wyth wythnos: ‘Gadael ceffylau a merlod a phori anghyfreithlon: Darparu ateb hirdymor’¹⁶. Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio canfod a oedd y fframwaith deddfwriaethol presennol yn fodd i awdurdodau gorfodi ymdrin â phori anghyfreithlon a gadael ceffylau yn ddiymgeledd yng Nghymru. Roedd yn gofyn hefyd am safbwyntiau ar sut i atal achosion o bori anghyfreithlon ar raddfa fawr, a’r hyn y dylai unrhyw Fil ei gynnwys er mwyn mynd i’r afael â’r mater.

Cafodd y ddogfen ymgynghori ei dosbarthu i randdeiliaid gan gynnwys awdurdodau lleol, heddluoedd Cymru, y gwasanaeth tân ac achub, tirfeddianwyr, ffermwyr, undebau ffermio, cominwyr, elusennau lles ceffylau, sefydliadau sy’n cyhoeddi pasbortau, perchennogion a/neu geidwaid ceffylau a’r gymuned Sipsiwn a Theithwyr.

Cafwyd cyfanswm o 602 o ymatebion. O’r rhain, daeth 77 ohonynt i law drwy’r ffurflen ymateb swyddogol a gyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru, ac roedd 505 ohonynt yn ymatebion cyffredinol y credir iddynt gael eu dosbarthu drwy’r cyfryngau cymdeithasol. O’r 505 hynny, nodwyd bod 60 ohonynt wedi dod o wledydd y tu allan i’r DU nad oedd ganddynt fuddiant uniongyrchol yn y mater ac felly ni chawsant eu hystyried. Cafodd 20 o ymatebion pellach eu hanfon mewn llythyron gan unigolion neu eu cynnwys fel gwybodaeth ychwanegol, neu eu rhoi fel awgrymiadau fel rhan o ymatebion cyffredinol.

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar **29 Ebrill 2013**, ac mae crynodeb o’r ymatebion i’r ymgynghoriad ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru¹⁷. Dyma rai o’r prif bwyntiau a godwyd yn yr ymatebion i’r ymgynghoriad:

- Lleiafrif o bobl sy’n achosi’r problemau. Nodwyd profiadau personol o bori anghyfreithlon gan unigolion ac awdurdodau lleol fel ei gilydd, gan gynnwys codi ofn a bygythiadau honedig, ynghyd â difrod gwirioneddol i eiddo.
- Ymhlith y themâu cyson oedd dulliau adnabod (cysylltu ceffyl â’i berchennog), bridio anghyfrifol a masnachu.
- Awgrymwyd y dylid ymestyn y diffiniad o bori anghyfreithlon i gynnwys tir coming a’r sawl sydd â hawl cominwr. Mynegwyd pryderon nad oedd cyfeiriad at dir comin nac at hawliau rhwymo ceffylau yn y diffiniad, nac ychwaith unrhyw gyfeiriad at ymddygiad bygythiol cysylltiedig.

¹⁶Llywodraeth Cymru, [Gadael ceffylau a merlod a phori anghyfreithlon: Darparu ateb hirdymor](#), Mawrth 2013 [fel ar 14 Hydref 2013]

¹⁷Llywodraeth Cymru, [Gadael ceffylau a merlod a phori anghyfreithlon: Darparu ateb hirdymor](#), Mawrth 2013 [fel ar 14 Hydref 2013]

- Teimlwyd y dylai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r mater o ran y pwerau sydd ar gael i ganfod ateb deddfwriaethol i'r broblem a fyddai'n gyson ar draws Cymru gyfan. Cynigiwyd sawl datrysiad anneddfwriaethol arall, sy'n sail i'r cynllun gweithredu a gyhoeddwyd gan y Gweinidog gyda'r Bil ar 14 Hydref 2013¹⁸.
- Roedd cefnogaeth i'r syniad o atgyfodi'r gronfa ddata ceffylau genedlaethol ac o ddarparu un gronfa ddata ganolog a fyddai'n cofnodi manylion pasbortau ceffylau ac unrhyw newid o ran perchnogaeth. Yn wir, awgrymwyd diwygio'r rheoliadau pasbortau ceffylau fel bod pob ceffyl yn cael microsglodyn, beth bynnag ei oed. O'r sawl wnaeth sylw am ddulliau adnabod, roedd teimlad y dylid ystyried rhewfrandio neu frandio carnau yn lle microsglodynnu.
- Roedd peth pryder hefyd fod y Deddfau presennol yn trin y porwr anghyfreithlon yn fwy ffafriol na pherchennog y tir (gan fod perchnogion y ceffylau yn gwybod bod ganddynt o leiaf 14 o ddiwrnodau o bori am ddim cyn i'r ceffylau gael eu cymryd. Yn wir, o dan *Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006*, mae perchennog y tir neu'r tirfeddiannwr yn gyfrifol am les yr anifeiliaid dim ond am eu bod ar eu tir neu safle.

2.5. Rhaglen deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

Yn ystod ei gyhoeddiad am y datganiad deddfwriaethol yn y Cyfarfod Llawn ar 16 Gorffennaf 2013, dywedodd Carwyn Jones AC, y Prif Weinidog:

Rydym yn ymwybodol bod pori anghyfreithlon, neu fynd a gadael ceffylau, yn broblem gynyddol i awdurdodau lleol. Mae'r deddfwriaeth sydd ar hyn o bryd ar gael i awdurdodau lleol wedi bod yn annigonol i fynd i'r afael â'r materion ar y raddfa yr ydym yn eu profi ar hyn o bryd. **Felly cynigir bod awdurdodau lleol ledled Cymru yn cael yr offer i'w galluogi i atafaelu, corlannu a chael gwared ar geffylau, drwy werthu, ailgartrefu neu ladd heb boen, fel y bo'n briodol a phan fo amgylchiadau yn mynnu hynny.** Rydym yn credu y bydd deddfwriaeth ar bori anghyfreithlon a mynd a gadael ceffylau a merlod yn darparu ateb effeithiol i'r broblem, trwy wneud i'r unigolion hynny sy'n pori ceffylau a merlod yn anghyfreithlon yn atebol am eu gweithredoedd, a thrwy fynd i'r afael â'r niwsans annerbyniol o bori anghyfreithlon sy'n achosi niwed i ddiogelwch y cyhoedd, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, ac yn gosod beichiau ariannol ar unigolion a'r trethdalwr. **Bydd deddfwriaeth a fydd yn mynd i'r afael â'r broblem hon yn cael ei chyflwyno cyn diwedd y flwyddyn hon.**¹⁹ [*Pwyslais y Gwasanaeth Ymchwil.*]

¹⁸ Llywodraeth Cymru, [Gadael ceffylau a merlod a phori anghyfreithlon: Cynllun gweithredu](#), 14 Hydref 2013 [fel ar 14 Hydref 2013]

¹⁹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion, Cyfarfod Llawn 16 Gorffennaf 2013](#) [fel ar 14 Hydref 2013]

Atebodd Andrew R.T. Davies, arweinydd yr wrthblaid:

Roedd gen i wên gam ar fy wyneb pan ddarllenais y datganiad, a phan siaradodd y Prif Weinidog am y Bil pori anghyfreithlon a mynd a gadael ceffylau, oherwydd, y llynedd, yn yr ymateb a roddodd i fy nghyfraniad i at y datganiad deddfwriaethol, roedd yn gwawdio awgrym o'r fath yn hallt. Yn wir, treuliodd ddau neu dri munud da yn ein cyhuddo mai dyna'r cyfan oedd gennym i'w gynnig. Dyma ni heddiw, ac mae Bil o'r fath wedi'i gynnwys—cymeradwyaf y Prif Weinidog am gyflwyno'r Bil hwnnw, oherwydd mae'n faes hollbwysig, yn sicr o ran lles anifeiliaid, y mae angen mynd i'r afael ag ef.

3. Amserlen

3.1. *Dyddiadau allweddol*

Cyflwynwyd Bil Rheoli Ceffylau (Cymru) ar 14 Hydref 2013²⁰ a gwnaeth y Gweinidog ddatganiad deddfwriaethol am ei gyflwyno yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Hydref 2013²¹. Bydd y Cynulliad yn trafod egwyddorion cyffredinol y Bil yn y Cyfarfod Llawn ar 22 Hydref 2013.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar 24 Medi i'r Bil **hepgor cael ei graffu gan bwyllgor yng Nghyfnod 1**, ac i'w gyfeirio at y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd²² iddo graffu arno yng Nghyfnod 2 (craffu fesul llinell gan bwyllgor).

Bydd **Cyfnod 2** yn dechrau ar 23 Hydref 2013 a rhaid iddo gael ei gwblhau erbyn **15 Tachwedd 2013**.

Disgwylir i drafodion **Cyfnod 3 a 4** gael eu cynnal yn y Cyfarfod Llawn ar **10 Rhagfyr 2013**, neu cyn toriad y Nadolig, a disgwylir i'r Bil gael y **Cydsyniad Brenhinol ddechrau 2014**.

Mae'r memorandwm esboniadol yn nodi y caiff **canllawiau anstatudol** eu datblygu ar y cyd ag awdurdodau lleol a'u **cyhoeddi i gyd-fynd â'r dyddiad y daw'r Bil i rym**²³. Bydd y canllawiau hynny'n cynnwys y broses a'r dull yr argymhellir y dylai awdurdodau lleol eu dilyn wrth benderfynu a yw perchennog yn debygol o ddod yn ei flaen i hawlio ceffyl.

3.2. *Cyflymu'r broses ddeddfu*

Dyma'r trydydd Bil Cynulliad yn olynol lle mae'r broses ddeddfu wedi'i chyflymu yn ystod Cyfnod 1. Bil Sector Amaethyddol (Cymru)²⁴ oedd y cyntaf, a ddefnyddiodd weithdrefnau brys y Cynulliad, a **Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru)**²⁵ oedd yr ail.

Yn ei lythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, dyddiedig 24 Medi 2013, eglurodd y Gweinidog pam y rhoddwyd y Bil ar y llwybr carlam:

to provide local authorities across Wales with the relevant powers and necessary tools to deal with the nuisance of fly grazing in time for the coming winter months, when this problem is often at its height.

²⁰Llywodraeth Cymru, [Datganiad ysgrifenedig y Cabinet: Bil Rheoli Ceffylau \(Cymru\)](#), 14 Hydref 2013 [fel ar 14 Hydref 2013]

²¹Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion - y Cyfarfod Llawn 15 Hydref 2013](#) [fel ar 16 Hydref 2013]

²² Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd](#), [fel ar 14 Hydref 2013]

²³ Llywodraeth Cymru, [Memorandwm esboniadol: Bil Rheoli Ceffylau \(Cymru\)](#), Hydref 2013, paragraff 43. [fel ar 14 Hydref 2013]

²⁴ [Bil Sector Amaethyddol \(Cymru\)](#) [fel ar 14 Hydref 2013]

²⁵ [Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol \(Cymru\)](#) [fel ar 14 Hydref 2013]

I am conscious that in seeking to ensure the Bill completes all stages of Assembly consideration before Christmas Recess, so as to allow the Act to come into force in January (subject to Royal Assent), your Committee will not be given the opportunity of the usual Stage 1 scrutiny process. However, I would like to offer to attend a meeting of the Committee to give evidence prior to the debate on the general principles of the Bill which is set for 22 October, if that would be helpful²⁶.

Cytunodd y Gweinidog, felly, i ymddangos gerbron y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar 16 Hydref 2013²⁷, y Pwyllgor Cyllid ar 17 Hydref²⁸, a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar 21 Hydref²⁹ cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 22 Hydref.

Yn ystod datganiad y Prif Weinidog ar raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn y Cyfarfod Llawn ar 16 Gorffennaf 2013, cyfeiriodd Andrew R.T. Davies AC, arweinydd yr wrthblaid, at yr angen i sicrhau 'taith gyflym' ar gyfer y Bil:

Nodir, heddiw, bod pwerau argyfwng wedi cael eu defnyddio i wthio Bil drwy'r Cynulliad hwn, er gofid mawr i ni, ond rwy'n credu y **gallai llawer o'r gwelliant mewn rheoleiddio a gynigir gan y Bil pori anghyfreithlon fod yn angenrheidiol y gaeaf hwn, os cawn ni aeaf arbennig o lwm a chaled**, ac yn hytrach na chaniatáu i anifeiliaid ddiweddef gaeaf arall o gyflyrau anffodus, gyda marwolaeth a materion lles anifeiliaid eraill yn peri niwed iddynt, **rwy'n gobeithio y bydd y Prif Weinidog a'i Weinidog yn estyn allan at y gwrthbleidiau i geisio cychwyn taith gyflym ar gyfer y Bil** hwnnw, fel bod awdurdodau lleol yn gallu gweithredu'r ddeddfwriaeth newydd.³⁰ [*Pwyslais y Gwasanaeth Ymchwil.*]

Ymatebodd y Prif Weinidog:

Soniodd am y mater o bori anghyfreithlon. Nid wyf yn siŵr a oedd yn awgrymu y byddai'n cefnogi Bil argyfwng ynglŷn â phori anghyfreithlon, felly ni fyddaf yn ei gadw i hynny, ond pwysleisiodd frys yr angen i fwrw ymlaen â deddfwriaeth. Rydym yn ymwybodol o hynny, o ran yr effaith y mae hyn wedi'i chael yn enwedig, ond nid yn unig, ar gymaint o bobl ledled de Cymru.³¹

²⁶Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol - gohebiaeth](#). [fel ar 14 Hydref 2013]

²⁷ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [agenda'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar gyfer 16 Hydref 2013](#). [fel ar 14 Hydref 2013]

²⁸Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [agenda'r Pwyllgor Cyllid ar gyfer 17 Hydref 2013](#). [fel ar 14 Hydref 2013]

²⁹Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [agenda'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar gyfer 21 Hydref 2013](#). [fel ar 14 Hydref 2013]

³⁰Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion, Cyfarfod Llawn 16 Gorffennaf 2013](#) [fel ar 14 Hydref 2013]

³¹ Ibid.

4. Y Bil

4.1. Nodau ac amcanion polisi

Mae *Bil Rheoli Ceffylau (Cymru)* yn ceisio cyflawni'r amcanion canlynol:

- gweithio tuag at 'sefydlu Cymru sy'n rhydd o bori anghyfreithlon';
- rhoi'r un pwerau i bob awdurdod lleol yng Nghymru i ymafael mewn ceffylau sy'n achosi niwsans drwy bori'n anghyfreithlon, ac i'w cadw, eu gwerthu, eu gwaredu a'u difa mewn modd trugarog (ar ôl cyhoeddi hysbysiadau a therfynau amser penodol);
- galluogi pob awdurdod lleol i gydweithio i ddiogelu'r cyhoedd a'r amgylchedd rhag y niwsans a achosir gan yr arfer hwn; a
- cynnig ateb i'r broblem o ran ceffylau yr ymafaelir ynddynt nad oes modd eu hadnabod, a gaiff eu gwerthu a'u prynu yn ôl am bris rhad gan y sawl y credir mai hwy yw'r perchnogion gwreiddiol, ond y gwelir wedyn eu bod yn achosi niwsans drwy bori'n anghyfreithlon unwaith eto.

4.2. Cymhwysedd

Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymhwysedd deddfwriaethol i gyflwyno'r Bil o dan adran 108 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*³², a Rhan 1 o Atodlen 7 iddi yn y pynciau canlynol:

- Pwnc 1: Amaethyddiaeth, coedwigaeth, anifeiliaid, planhigion a datblygu gwledig
- Pwnc 6: Yr amgylchedd
- Pwnc 10: Priffyrdd a thrafnidiaeth, a
- Pwnc 12: Llywodraeth leol.

4.3. Darpariaethau

Mae *Bil Rheoli Ceffylau (Cymru)* yn gymharol fyr ac mae iddo **10 adran**. Mae crynodeb o bob adran isod:

- Mae **adran 1 (Trosolwg)** yn rhoi trosolwg o'r Bil, gan roi crynodeb o'r hyn y caniateir i awdurdodau lleol ei wneud pan fydd ceffylau mewn mannau cyhoeddus neu ar dir arall heb ganiatâd y meddiannydd neu heb awdurdod cyfreithiol.
- Mae **adran 2 (Pŵer awdurdodau lleol i ymafael mewn ceffylau)** yn rhoi'r pŵer i awdurdod lleol ymafael mewn ceffyl a'i gadw, ar yr amod bod ganddo sail resymol i gredu bod y ceffyl yno heb awdurdod cyfreithiol.

³² [Deddf Llywodraeth Cymru 2006](#) (p.32) [fel ar 14 Hydref 2013]

- Mae **adran 3 (Hysbysiadau ynghylch ymafael ac ati)** yn nodi'r camau y mae'n rhaid i awdurdod lleol eu cymryd ar ôl ymafael mewn ceffyl. Mae'r rhain yn cynnwys arddangos hysbysiadau ysgrifenedig gerllaw'r man yr ymafaelwyd yn y ceffyl, gan nodi'r dyddiad a'r amser yr ymafaelwyd ynddo a manylion cyswllt yr awdurdod lleol. Mae'n rhaid i awdurdod lleol hefyd roi hysbysiadau ysgrifenedig o fewn 24 awr i unrhyw un yr ymddengys mai ef yw perchennog y ceffyl yr ymafaelwyd ynddo, neu ei fod yn gweithredu ar ran y perchennog, yn ogystal ag i'r heddlu.
- Mae **adran 4 (Costau ymafael ac ati)** yn gwneud perchennog ceffyl yr ymafaelir ynddo yn atebol am unrhyw gostau yr eir iddynt yn rhesymol gan awdurdod lleol wrth ymafael mewn ceffyl a'i gadw, yn ogystal ag wrth ei fwydo a'i gynnal tra bo'n cael ei gadw. Nid yw'n ofynnol i'r awdurdod lleol ddychwelyd y ceffyl hyd nes y bydd y costau yr aed iddynt wedi'u talu.
- Mae **adran 5 (Gwaredu ceffylau sydd wedi eu cadw)** yn rhoi'r pŵer i awdurdod lleol werthu neu waredu ceffyl (gan gynnwys trefnu ei ddifa) os na fydd perchennog y ceffyl, na pherson sy'n gweithredu ar ran y perchennog, wedi cysylltu â'r awdurdod lleol o fewn yr amserlen benodedig, neu os bydd y perchennog wedi cysylltu â'r awdurdod lleol ond nid yw'r costau perthnasol wedi'u talu. Gellir defnyddio unrhyw enillion i dalu'r costau yr aed iddynt o dan adran 4, gan dalu'r swm sy'n weddill i berchennog y ceffyl. Fodd bynnag, caiff unrhyw gostau ychwanegol yr aed iddynt (e.e. ar gyfer difa'r ceffyl) eu hychwanegu at y costau y mae'r perchennog yn atebol i'w talu.
- Mae **adran 6 (Cofnod o'r ceffylau yr ymdriniwyd â hwy)** yn nodi bod yn rhaid i awdurdod lleol gadw cofrestr gyhoeddus o'r holl geffylau y mae wedi ymafael ynddynt o dan adran 2.
- Mae **adran 7 (Apelau)** yn nodi y caiff Gweinidogion Cymru, drwy offeryn statudol, wneud rheoliadau i ddarparu'r hawl i apelio mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n codi o dan y ddeddfwriaeth.
- Mae **adran 8 (Diddymiadau canlyniadol)** yn nodi'r darpariaethau a geir yn y tair Deddf leol a fydd yn peidio â bod yn berthnasol, gan y byddant yn ddiangen o ganlyniad i gyflwyno'r Bil. Mae'r diddymiadau fel a ganlyn:
 - a) adran 29 o *Ddeddf Cyngor Dinas Caerdydd 1984* (p. xv);
 - b) yn adran 15(8) o *Ddeddf Cyngor Sir Morgannwg Ganol 1987* (p. vii), y geiriau "horses (including ponies, mules, jennets),"; ac
 - c) yn adran 35(7) o *Ddeddf Gorllewin Morgannwg 1987* (p. viii), y gair "horses".
- Mae **adran 9 (Dehongli)** yn diffinio ystyr 'ceffyl' ac 'awdurdod lleol' at ddibenion y Bil.

- Mae **adran 10 (Cychwyn ac enw byr)** yn nodi y daw'r Bil cyfan i rym y diwrnod ar ôl iddo gael y Cydsyniad Brenhinol, ac mae'n nodi enw byr y Bil.

4.4. *Gweithredu ac adolygu*

Mae'r Llywodraeth wedi rhoi'r amserlen fras a ganlyn ar gyfer ystyried a gweithredu'r Bil:

- **dechrau mis Rhagfyr 2013:** pasio'r Bil, gan ddibynnu ar ewyllys y Cynulliad;
- **dechrau 2014:** cael y Cydsyniad Brenhinol, gyda'r darpariaethau'n dod i rym ar unwaith pan ddigwydd hynny, yn rhinwedd adran 10 o'r Bil. Gallai hynny ddigwydd mor gynnar â mis **Ionawr 2014**³³.

Mae'r memorandwm esboniadol hefyd yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r ddeddfwriaeth ddwy flynedd ar ôl cael y Cydsyniad Brenhinol, neu'n gynharach os bydd angen³⁴. Hefyd, bydd unrhyw ganllawiau anstatudol a gyhoeddir o dan y Bil yn cael eu hadolygu fel bod modd eu datblygu gydag amser ac er mwyn ymateb i'r profiad o'u gweithredu³⁵.

³³ Llywodraeth Cymru, [Memorandwm esboniadol: Bil Rheoli Ceffylau \(Cymru\)](#), Hydref 2013, paragraff 42 [fel ar 14 Hydref 2013]

³⁴ Ibid., paragraff 136.

³⁵ Ibid. paragraff 43.

5. Goblygiadau ariannol

Mae'r asesiad effaith rheoleiddiol, a geir yn y memorandwm esboniadol sy'n cydfynd â'r Bil, yn nodi'r costau arfaethedig ar gyfer tri opsiwn.

Opsiwn 1 yw gwneud dim byd, ac mae'r asesiad yn nodi y byddai'r costau sy'n deillio o bori anghyfreithlon yn parhau i gynyddu os na chaiff deddfwriaeth ei chyflwyno. Er nad yw'r asesiad yn cynnwys y costau sy'n deillio o bori anghyfreithlon ar gyfer Cymru gyfan, gan nad ydynt ar gael yn ganolog ar hyn o bryd, **yn yr ardaloedd hynny o dde Cymru lle mae pori anghyfreithlon yn arbennig o gyffredin yn ôl Llywodraeth Cymru, amcangyfrifir fod yr awdurdodau gorfodi wedi mynd i gostau o tua £1.2 miliwn ers mis Tachwedd 2011.**

Opsiwn 2 yw cyflwyno canllawiau anstatudol gyda'r bwriad o annog perchnogion ceffylau a merlod i ymddwyn yn gyfrifol. Er mwyn datblygu'r canllawiau hyn, byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru dalu cost untro o **ryw £11,000, sef costau staff yn unig.**

Opsiwn 3 yw'r opsiwn a ffefrir, sef cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol a chanllawiau ategol. **Byddai hynny'n golygu bod yn rhaid talu'r un costau am y canllawiau a nodwyd yn opsiwn 2.** At hynny, byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru **dalw cost untro o hyd at £450,000 i greu contract yn ôl y gofyn i sicrhau llety diogel ar gyfer y ceffylau yr ymafaelir ynddynt gan awdurdodau lleol. Yna, byddai hynny'n arwain at gostau o hyd at £300,000 y flwyddyn yn y blynyddoedd dilynol.** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod y costau enghreifftiol yn seiliedig ar y costau uchaf posibl.

Mae'r memorandwm esboniadol yn nodi bod rhai o'r awdurdodau lleol sydd eisoes yn gweithredu'r tair Deddf leol³⁶ wedi hen fabwysiadu'r arfer da o gyhoeddi hysbysion ar y safleoedd lle mae ceffylau wedi ymafael ynddynt, ac eisoes yn cadw cofnodion o'r ceffylau a gedwir. Ni fydd yr awdurdodau hynny yn mynd i gostau ychwanegol, felly, o ganlyniad i'r Bil. **Fodd bynnag, bydd yr awdurdodau lleol sy'n weddill yn mynd i gostau trosiannol, gan gynnwys costau cyhoeddi hysbysion a chadw cofnodion. Amcangyfrifir y bydd yn costio tua £500 i'r holl awdurdodau sefydlu dull o gofnodi'r ceffylau a gedwir ganddynt.** Yn ychwanegol at hynny, o ran amser swyddogion, bydd yn costio tua £50 i £100 bob tro i swyddog gyhoeddi hysbysiad, a thua £2.50 i £4 y ceffyl i swyddog gofnodi ei fanylion er mwyn cydymffurfio â'r Bil.

³⁶ Y Deddfau sydd ar hyn o bryd ar waith i fynd i'r afael â phori anghyfreithlon yn lleol mewn mannau o dde Cymru yw *Deddf Cyngor Dinas Caerdydd 1984*, *Deddf Cyngor Sir Morgannwg Ganol 1987* a *Deddf Cyngor Sir Morgannwg Ganol 1987*. Bydd y darpariaethau perthnasol yn y Deddfau hyn i alluogi awdurdodau lleol i ymafael mewn anifeiliaid crwydr a geir ar eu tir, eu cadw, eu gwaredu a'u difa mewn modd trugarog yn cael eu dirymu unwaith y daw'r Bil i rym.

Mae'r asesiad effaith rheoliadol hefyd yn nodi ei fod yn annhebygol y bydd y rhan fwyaf o berchnogion ceffylau yn gorfod talu am y costau y bydd awdurdod lleol wedi mynd iddynt, gan fod y mwyafrif yn gofalu am eu hanifeiliaid mewn modd cyfrifol. Nid yw'n ceisio amcangyfrif y costau hynny, felly. Fodd bynnag, mae'n datgan mai tua £10 fydd y gost o gychwyn apêl pan fydd dadl ynghylch maint y costau rhesymol.

Mae'r asesiad effaith rheoliadol yn rhoi enghreifftiau o'r buddion a allai ddod yn sgîl y ddeddfwriaeth o ran lleihau costau awdurdodau lleol a sefydliadau eraill. Fodd bynnag, nid yw'n amcangyfrif cyfanswm y buddion a ddeuai i'r sefydliadau hyn yn sgîl y ddeddfwriaeth drwy leihau'r achosion o bori anghyfreithlon a galluogi awdurdodau lleol i adennill costau gan berchenogion y ceffylau a geir yn pori'n anghyfreithlon.

Tabl 1: Crynodeb o'r costau trosiannol a chylchol sydd ynghlwm wrth weithredu pob opsiwn

	£		
	Opsiwn 1	Opsiwn 2	Opsiwn 3
Costau trosiannol			
Datblygu canllawiau anstatudol (Llywodraeth Cymru)		11,000	11,000
Sefydlu contract yn ôl y galw i ddarparu lle diogel i geffylau yr ymafaelwyd ynddynt (Llywodraeth Cymru a ChLILC)			450,000
Pennu dull o gofnodi'r ceffylau a gadwyd (awdurdodau lleol)			500
Costau cylchol			
Cyhoeddi hysbysiadau ym manau'r ymafael a chofnodi manylion y ceffylau hynny (awdurdodau lleol)			£52.50 - £104 y ceffyl
Costau rhedeg lleoedd diogel i geffylau yr ymafaelwyd ynddynt (Llywodraeth Cymru a ChLILC)			300,000
Y gost i berchenog ceffyl o apelio'r costau rhesymol, os ydynt yn destun dadl			£10 yr apêl
Y gost bosibl i Lywodraeth Cymru os yw Gweinidogion Cymru yn penderfynu apelau			£60 yr apêl
			£761,500 a chostau ychwanegol fesul apêl neu geffyl yr ymafaelwyd ynddo
Cyfanswm	Dim costau ychwanegol	11,000	y mafaelwyd ynddo

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, [Memorandwm esboniadol: Bil Rheoli Ceffylau \(Cymru\)](#), 14 Hydref 2013, paragraffau 75 i 105 [fel ar 14 Hydref 2013]

Yn ei chyllideb ddrafft ar gyfer 2014-15, nododd Llywodraeth Cymru y canlynol mewn perthynas â'r Bil:

Bydd Bil Rheoli Ceffylau (Cymru) yn rhoi'r un pwerau cyfreithiol i holl awdurdodau lleol Cymru atafaelu, dal, gwerthu, gwaredu a difa ceffylau heb greulondeb, ac ar ôl rhoi hysbysiadau a chyfyngiadau amser penodol, os ydynt yn achosi niwsans drwy bori'n anghyfreithlon mewn ardal awdurdod lleol. **Rydym wedi dyrannu £0.25 miliwn yn 2014-15 a 99 fydd yn cael ei ddefnyddio i wireddu'r Bil, codi ffensys a chynnig diogelwch a rheolaeth yn ystod y flwyddyn gyntaf hon.** Mae'r cyllid hwn wedi'i glustnodi yn y Rhaglenni Cyflawni yng Ngham Gweithredu'r Cynllun Datblygu Gwledig.³⁷

³⁷Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-2015 - Blaenoriaethau i Gymru](#), paragraff 14.22, 8 Hydref 2013 [fel ar 14 Hydref 2012]

6. Ymatebion

Gwnaeth y Gweinidog, Alun Davies AC, ddatganiad deddfwriaethol yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Hydref 2013 yn cyflwyno'r Bil i Aelodau'r Cynulliad. Mae trawsgrifiad llawn ar gael³⁸, ond dyma ddetholiad o sylwadau'r Aelodau.

I hope Members will share with me my desire to provide local authorities for the first time with the appropriate tools to deal with the issue of fly-grazing and abandonment of horses. In doing so, we will remove much of the costly, resource-intensive and unsustainable economic burden that has fallen on local authorities, the emergency services, animal welfare charities and members of the public. [...]

The Bill has been welcomed by local authorities across Wales, as well as animal welfare organisations and horse charities, where resources and space within rescue centres is severely limited, due in no small part to the problem of abandoned horses. Over the last three years, many establishments such as the Royal Society for the Prevention of Cruelty to Animals, World Horse Welfare and Redwings have seen a sharp increase in horses needing to be rehomed. These organisations see the benefit of a national approach and, for local authorities, it means being able to act faster, to save money and to recoup costs.

Cododd sawl Aelod y ffaith bod y Bil yn osgoi craffu yn ystod Cyfnod 1, gan gynnwys Ilefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Antoinette Sandbach AC:

I agree that it is an important Bill, and it addresses an issue that has serious implications on the agriculture industry, landowners, animal welfare and public safety. **However, I am concerned at the process that is being used to bring this Bill forward.** [...] You are aware that Stage 1 committee consideration has been excluded by the process by which this Bill is being taken forward. That is the first opportunity to engage stakeholders and to invite representations, and it is the point at which evidence-based reports are produced, and recommendations are laid out, by the committee. It sets the basis on which other amendments, scrutiny and debates are founded. **Failure to allow for the Stage 1 proceedings brings forward concerns that it prevents proper engagement with stakeholders.** [...]

I am sad to say that you have form for this, Minister, because you will remember the agricultural wages Bill, which came forward under the emergency Bill procedure, and the problems associated with that. I appreciate that the emergency Bill procedure has not been advised here, but in avoiding Stage 1 committee considerations, we are running the risk of inadequate scrutiny, and it is important that that is said. **It is for that reason that I would like you to explain to us why you have delayed to the point that the expedited procedure was required here. It has been nearly a year since you issued a statement outlining your intention to produce your policy on fly-grazing, and six months since the consultation on fly-grazing closed.** [*Pwyslais y Gwasanaeth Ymchwil*]

³⁸ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion, Cyfarfod Llawn 15 Hydref 2013](#) [fel ar 16 Hydref 2013]

Hefyd yn siarad ar ran y Ceidwadwyr Cymreig, aeth Janet Finch-Saunders AC yn ei blaen i ddweud:

This is so serious an issue that I am amazed that, now that we have extra powers in this institution, you are bypassing Stage 1. In the Bills that I have sat through, Stage 1 was one of the most important stages, because it really does deal with the devil, or otherwise, in the detail of any Bill coming forward. I think that there is a bit of arrogance, actually, in bypassing that stage.

Ymatebodd y Gweinidog drwy ddweud:

In terms of where we are in this process, this legislation has been born from a process of debate, discussion and conversation with the equine community across Wales. We have been involved in discussions with people who have real expertise in and knowledge of the field and people who deal with this on a day-to-basis, whether local authorities, the police, animal welfare charities or others. Therefore, this legislation has been born from their knowledge and their experience.

Dywedodd Llefarydd Plaid Cymru, Llŷr Gruffydd AC:

A gaf i ddechrau drwy gefnogi'r angen i fynd i'r afael â phori anghyfreithlon a chroesawu'r ffaith bod y Llywodraeth wedi cyflwyno deddfwriaeth ar gyfer y pwrpas hwnnw? Fodd bynnag, rwyf eisiau ategu siom yr Aelodau blaenorol fod y Gweinidog wedi gorfod ei wneud yn y modd hwn eto. Nid dyna'r ffordd ddelfrydol yn fy marn i. **Mae'n resyn, mewn gwirionedd, gennyf ein bod yn y sefyllfa hon, oherwydd mae cyrff lles anifeiliaid wedi bod yn rhybuddio ers talwm fod problem gynyddol a bod angen mynd i'r afael â hi.** Fodd bynnag, rydym mewn sefyllfa lle mae'n rhaid i ni gyfyngu ar y dioddefaint y bydd nifer o'r anifeiliaid hyn yn ei wynebu dros fisoedd y gaeaf. **Nid wyf yn hapus gyda'i wneud fel hyn ac nid wyf yn gyfforddus gyda'i wneud fel hyn, ond o dan yr amgylchiadau, rwy'n teimlo bod yn rhaid i mi chwarae fy rhan i gael y datrysiaid gorau posibl i'r sefyllfa fel y mae hi yn yr amser byr sydd gennym i wneud hynny.** Byddwn yn gofyn i'r Gweinidog i gydnabod efallai nad dyma'r ffordd orau i fynd ati ar y mater hwn ac i ddangos ei fod yn rhannu consyrn nifer ohonom ein bod yn gorfod defnyddio'r mesurau hyn unwaith eto i gynhyrchu deddfwriaeth yn y Cynulliad. [*Pwyslais y GY*]

Ymatebodd y Gweinidog:

Pan mae'n dod at ddefnyddio prosesau a'r ffordd mae'r Bil hwn wedi cael ei gyflwyno, rwy'n credu y **bydd pobl Cymru yn disgwyl i'r Cynulliad Cenedlaethol allu ymateb yn ddigon clou i'r problemau a'r materion maen nhw'n eu gweld yn bwysig.** Gallem ddweud y bydd pob un Bil yn mynd yn yr un ffordd drwy'r broses, sy'n gallu bod yn ddigon hir, ond rwyf yn meddwl, ambell waith, bod pobl Cymru yn disgwyl i'r Cynulliad ymateb yn gynt na hynny. **Pan rwy'n gweld bod problem, petawn i'n dweud fan hyn ei fod yn mynd i gymryd 18 mis i'r Bil gyrraedd y llyfr statud, byddai pobl Cymru yn gofyn, 'Wel, beth ydych chi'n gwneud lawr yn y fan yna yn y bae?'** Ambell waith, dylai'r Cynulliad weithredu yn y ffordd hon er mwyn sicrhau bod gennym ddeddfwriaeth ar y llyfr statud sy'n gallu ymateb i'r her yr ydym yn ei hwynebu mewn cymunedau ar draws Cymru. Mae hynny'n meddwl bod gennym deufis, neu dri mis ers i ni gael y sgwrs hon, o drafod y Bil hwn. [*Pwyslais y GY*]

Dywedodd y llefarydd ar ran Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, William Powell AC:

Naturally, I share some of the reservations that have already been expressed by Antoinette Sandbach and Llyr Gruffydd with regard to the mechanism that is being adopted. **I think that the pre-eminent concern here has to be around animal welfare.** Many of us are still haunted by the images from last winter and the early spring in terms of the sheep welfare crisis in Mid and West Wales and North Wales. We do not want to see that replicated again with regard to horses. [*Pwyslais y GY*]

Awgrymodd hefyd y gellid defnyddio'r Bil i sefydlu trefn codi ffi, er mwyn ceisio atal troseddu o'r fath:

does the Minister agree that there will be merit in using this Bill to develop a charging regime under which it will always cost more to recover a horse from a local authority than it would have cost to use reasonable local livery stables or equivalent facilities? **Taken as a whole, I would argue that the most basic premise of this Bill must be to ensure that fly-grazing is never seen by offenders as a cheap or easy option.** This, I believe, could be achieved if such a charging regime were to be imposed. [*Pwyslais y GY*]

Mynegodd nifer o sefydliadau a rhanddeiliaid allanol farn am y Bil hefyd, yn ei groesawu, gan fwyaf. Er enghraifft, dywedodd Steve Carter, cyfarwyddwr cenedlaethol Cymru yr RSPCA:

While not a panacea, we believe this is a positive step toward tackling the equine crisis in Wales and fully support the Minister's decision to legislate.

We hope the legislation will provide local authorities with a consistent and effective way of dealing with incidents of fly-grazing and abandonment but will also allow for a multi-agency approach to the problem. Successful convictions, like that of horse trader Tom Price, are dependent on **coordination between all agencies and this approach remains essential to improving enforcement and welfare.** [...]

Any delay to this Bill could leave animals to suffer throughout the coming winter. We look forward to working with the Welsh Government and Assembly Members as this Bill progresses through the Assembly³⁹. [*Pwyslais y GY*]

Mynegwyd peth pryder hefyd y gallai'r Bil drosglwyddo'r broblem i Loegr. Mewn cyfweliad i'r Farmers Weekly, dywedodd cynghorydd materion cefn gwlad undeb yr NFU, David Collier:

There is a danger that Wales's gain will be England's loss, as the problem is displaced eastwards. This makes the need for action in England as well as Wales more urgent than ever⁴⁰.

³⁹ Gwefan yr RSPCA, [RSPCA Cymru welcome Welsh Government action to stop fly-grazing](#), 14 Hydref 2013 [fel ar 15 Hydref 2013]

⁴⁰ Farmers Weekly, [Make fly-grazing a criminal offence, says NFU](#), Awst 2013 [fel ar 14 Hydref 2013]

Dyweddodd Lynn Cutress, prif weithredwr Redwings, y lloches i geffylau:

At Redwings we have seen many examples over the last few years, from low level neglect to abandonment and worse.

We would urge Westminster to follow suit so we can see a real and drastic improvement in the lives of vulnerable horses throughout the UK.⁴¹ [*Pwyslais y GY*]

⁴¹ Gwefan BBC News, [*Illegal horse grazing Bill published by Welsh government*](#), 15 Hydref 2013 [fel ar 15 Hydref 2013]